# Calendr ar gyfer Hyfforddiant Anableddau Dysgu

# Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf

## Hydref 2023 – Mawrth 2024

## *Tabl o Gyrsiau Hyfforddi*

| Cwrs | Hyfforddwr/Hwylusydd | Rhif. | Trefnydd |
|---|---|---|---|
| Anhwylder Personoliaeth | Anna Minogue | 8 | Ceri Watts |
| Ffyrdd cadarnhaol o ddeall ymddygiad mewn awtistiaeth | Helen Robinson | 9 | Ceri Watts |
| Bod yn Effro i Beryglon Tân | Gwasanaethau Diogelwch Tân | 10 | Ceri Watts |
| Ymwybyddiaeth o Epilepsi | GIG Cymru | 11 | Ceri Watts |
| Deall Iechyd Meddwl | Anna Minogue | 12 | Ceri Watts |
| Cyfathrebu Cynhwysol | GIG Cymru | 13 | Ceri Watts |
| Bwyta ac Yfed â Chymorth | Therapydd Lleferydd ac Iaith | 14 | Ceri Watts |
| Anableddau Dysgu a Dementia | Tony Waters | 15 | Ceri Watts |
| Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth (Lefel 1 ASD yn flaenorol) | Helen Robinson | 16 | Ceri Watts |
| Strategaethau Cymorth Gweledol (Lefel 2 ASD yn flaenorol) | Helen Robinson | 17 | Ceri Watts |
| Ymwybyddiaeth o Ddiabetes | GIG Cymru | 18 | Ceri Watts |
| **Gwybodaeth Am Becynnau E-Ddysgu** | | | |
| Hylendid Bwyd E-ddysgu | Highfields | 20-21 | Ceri Watts |
| Meddyginiaeth - E-ddysgu | Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf | 22 | Ceri Watts |
| **Rhaglen Sefydlu Gofal Cymdeithasol** | | | |
| Sefydlu Gofal Cymdeithasol | Amrywiol | 23 - 40 | Jillian Davies |
| **Hyfforddiant Diogelu Oedolion Cwm Taf** | | | |
| Ymwybyddiaeth o Drais Casineb | Ginnie Davies, Partneriaeth Cymunedau Diogel Rhondda Cynon Taf | 41 | Jillian Davies |
| Ymgymryd ag Ymchwiliadau Diogelu | Kevin Jones | 42 | Jillian Davies |
| Adran 126 | Jackie Neale | 43 | Jillian Davies |
| Diogelu Oedolion, Hyfforddiant Lefel 2 ("Lefel 2" Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed gynt) | Carfan FfCCh | 44 | Jillian Davies |
| Diogelu Oedolion Lefel 2 – Cwrs Gloywi mewn Diogelu ar gyfer staff gofal | Carfan FfCCh | 45 | Jillian Davies |
| Diogelu Oedolion Lefel 2 – Cwrs Gloywi mewn Diogelu ar gyfer staff goruchwylio | Carfan FfCCh | 46 | Jillian Davies |
| Diogelu Oedolion Lefel 3 | Grŵp Diogelu Hyfforddiant Cwm Taf | 47 | Jillian Davies |
| Cam-drin Rhywiol | Martin Vaughan | 48 | Jillian Davies |
| **Codi a Chario/Cymorth Cyntaf** | | | |
| A&B Codi a Chario | Carfan Codi a Chario Cwm Taf Morgannwg | 52 | Cath Brown |
| Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (3 Diwrnod) | Carfan Codi a Chario Cwm Taf Morgannwg | 53 | Cath Brown |
| Cymorth Cyntaf yn y Gwaith – Ailgofrestru (2 ddiwrnod) | Carfan Codi a Chario Cwm Taf Morgannwg | 54 | Cath Brown |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymorth Cyntaf Brys (diwrnod) | Carfan Codi a Chario Cwm Taf Morgannwg | 55 – 56 | Cath Brown |
| Diweddaru Sgiliau Sylfaenol | Carfan Codi a Chario Cwm Taf Morgannwg | 57 | Cath Brown |

**Croeso** i'r rhifyn yma o amserlen hyfforddiant Gwasanaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf ar gyfer Hydref 2023 - Mawrth 2024.

**Dyma brif nodweddion y rhaglen:**

- Mae'r rhaglen wedi'i chyhoeddi mewn fformat sy'n galluogi rheolwyr i drefnu eu bod yn rhoi gwybod i staff am gyrsiau a allai fod o fudd iddyn nhw.
- Mae'r cyrsiau wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor.
- Yn ogystal â hynny, mae calendr ar ddiwedd yr amserlen sy'n dangos pryd y caiff pob sesiwn hyfforddiant ei gynnal.
- Bydd modd i chi enwebu staff **bedwar mis** ymlaen llaw.  Serch hynny, nodwch mai dim ond 5 wythnos ymlaen llaw y byddwch chi'n derbyn cadarnhad o leoedd.
- Rydyn ni wedi cyhoeddi dyddiadau'r achlysuron sydd ar ddiwedd y cyfnod er gwybodaeth yn unig. Nod hyn yw eich helpu i drefnu amserlenni ac ati.
- Mae'r hyfforddiant yma ar gael i staff sy'n gweithio ledled Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful,
- oni nodir yn wahanol ym manylion y cwrs.
- Pe hoffech chi weld hyfforddiant sy'n ymdrin ag unrhyw faterion penodol yn rhan o unrhyw raglen yn y dyfodol, e-bostiwch y swyddog hyfforddi perthnasol:
  - Ceri Watts – ymholiadau mewn perthynas ag anableddau dysgu Ceri.Watts@rctcbc.gov.uk
    - Am ymholiadau mewn perthynas â chodi a chario a chyngor ar gymorth cyntaf, e-bostiwch Catherine Brown Catherine.D.Brown@rctcbc.gov.uk.
  - Am ymholiadau mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol, diogelu neu gyrsiau ymsefydlu, e-bostiwch at Kathleen.McMullen@rctcbc.gov.uk.
  - Am ymholiadau mewn perthynas â datblygiad rheolwyr, e-bostiwch Ceri.Watts@rctcbc.gov.uk.
- Nodwch fod cyfyngiad ar nifer y sesiynau hyfforddiant Iechyd a Diogelwch y mae modd i ni eu cynnal o dan amodau'r grant. Mae hyn oherwydd bod y pynciau yma'n gyfrifoldeb statudol ar y cyflogwr.

- Mae'r holl hyfforddiant ar yr amserlen yma'n parhau i fod am ddim.

- Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant sy'n cael ei gynnig bellach wedi trosglwyddo i fformat digidol.

**Proses cadw lle**

Pe hoffech chi fynd ar unrhyw un o gyrsiau'r rhaglen yma, llenwch y ffurflen cadw lle electronig a gafodd ei hanfon â'r amserlen gan nodi'n glir eich cwrs a'r dyddiad hoffech chi fynychu. Pe hoffech chi gael fersiwn o'r ffurflen yma drwy e-bost, neu os oes gyda chi unrhyw ymholiadau, e-bostiwch Hannah.K.Johnson@rctcbc.gov.uk

Edrychwch ar y "**Gynulleidfa Darged**" yn ofalus cyn enwebu unrhyw un fel bod modd i bobl fynd ar y cyrsiau sy'n eu gweddu nhw orau. Mae rhai o'r cyrsiau ar gyfer pobl sy'n gweithio yn Rhondda Cynon Taf neu ym Merthyr Tudful yn unig. Mae'n bwysig felly eich bod chi'n gwirio manylion y cwrs cyn enwebu rhywun i fynychu.

Mae llawer o'n cyrsiau yn boblogaidd iawn a chaiff llefydd arnyn nhw eu cadw'n gyflym iawn fel arfer. Peidiwch ag anfon staff ar gwrs maen nhw wedi bod arno'n barod, ac eithrio ei fod yn gyfle datblygu parhaus.

Os bydd aelod newydd o staff yn ymuno â chi, dylech chi holi a ydyn nhw wedi mynd ar gyrsiau wedi'u cynnal gan y Garfan Hyfforddi a Datblygu gyda'u cyflogwyr blaenorol.

Rhaid i chi **enwi** aelod o staff wrth lenwi ffurflen cadw lle. Does dim modd i ni gadw lle i staff sydd heb gael eu henwi. Mae hyn oherwydd does dim modd i ni nodi'r data ar ein system gyfrifiadurol a chadw lle heb yr wybodaeth yma.

Unwaith i chi gwblhau'r ffurflen, anfonwch hi drwy e-bost at Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / HyfforddiantGofalCymdeithasol@rctcbc.gov.uk

Rydyn ni angen cyfeiriad e-bost y sawl sy'n cymryd rhan er mwyn iddo/iddi ymuno â'r hyfforddiant.

Rydyn ni'n gweithio ar system newydd i sicrhau bod rheolwyr yn cael gwybod am leoedd sydd wedi cael eu dyrannu. Os oes angen i chi wirio a yw staff wedi cael lle, e-bostiwch y Garfan Hyfforddiant: HyfforddiantGofalCymdeithasol@rctcbc.gov.uk

Os oes mwy o geisiadau'n dod i law na nifer y lleoedd, bydd enwau'r rheiny sy heb gael lle yn cael eu nodi ar restr wrth gefn.

Bydd cadarnhad yn cael ei anfon i'r sefydliad sydd wedi cadw lle ar y cwrs hyfforddi pum wythnos cyn yr achlysur. Y rheolwyr sy'n gyfrifol am rannu'r wybodaeth yma â'r staff cyn y cwrs. Byddwn ni'n anfon rhaglen y cwrs yn gadarnhad terfynol ein bod ni wedi cadw lle i unigolion ar y cwrs hyfforddi. Os fydd dim digon o bobl wedi cofrestru ar gyfer cwrs, efallai bydd y cyfnod amser yn newid.

Os bydd angen i chi anfon aelod arall o staff ar y cwrs oherwydd salwch neu absenoldeb, rhowch wybod i aelod o'r garfan weinyddol cyn gynted ag y bo modd.

Dylech chi sicrhau bod pob aelod o staff sy'n cael hyfforddiant wedi dilyn y weithdrefn cadw lle yma. Fydd dim modd i staff sydd heb eu cofrestru gymryd rhan.

Os oes unrhyw ymholiadau gyda chi mewn perthynas â'r broses cadw lle, cysylltwch â'r swyddog hyfforddi priodol.

Byddwn ni ond yn derbyn cais i ganslo lle ar gwrs 7 diwrnod cyn dyddiad yr hyfforddiant. Os daw'r cais i law i ganslo'r lle ar ôl y dyddiad yma, caiff nodyn 'heb ei fynychu' ei roi yn erbyn enw'r unigolyn. Y rheswm dros hyn yw oherwydd y mae rhaid i'r adran hyfforddi gael digon o amser i ail-hysbysebu'r hyfforddiant er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol, ac er mwyn sicrhau fod yr hyfforddiant ddim yn cael ei wastraffu.

**Materion Hygyrchedd**

Wrth gadw lle ar gwrs wedi'i gynnal gan Garfan Hyfforddi a Datblygu Cwm Taf, sicrhewch eich bod chi'n rhoi gwybod i ni am unrhyw anghenion o ran hygyrchedd digidol. Byddwn ni'n ceisio'n gorau i'w diwallu nhw (nam ar y clyw, nam ar y golwg, ac ati).

**Wrth gadw lle, rhowch wybod i ni am unrhyw staff sydd â'r canlynol:**

- Cadair olwyn
- Problemau o ran symudedd
- Problemau o ran clywed neu weld
- Problemau o ran llythrennedd a rhifedd
- Problemau y gallai'r amgylchedd dysgu effeithio arnyn nhw neu eu gwaethygu (e.e. epilepsi)
- Problemau sy'n ymwneud â llawdriniaeth neu anaf diweddar (e.e. problemau cefn)
- Anghenion dysgu eraill a allai eu hatal nhw rhag cyfranogi'n llawn

Mae'n bwysig eich bod chi'n rhoi gwybod i'r garfan weinyddu am hyn pan fyddwch chi'n cadw lle. Bydd hyn yn ein galluogi ni i rannu'r wybodaeth â'r hyfforddwyr a theilwra'r sesiynau fel eu bod yn diwallu anghenion y dysgwyr.

## Cymryd rhan mewn hyfforddiant ar blatfform rhithwir

- Er mwyn ymuno â'r hyfforddiant, defnyddiwch y ddolen a gafodd ei hanfon drwy e-bost gan weinyddwr y cwrs.
- Mae'n bosibl y byddwch chi wedi cael deunyddiau cyn y cwrs. Dylid eu darllen i baratoi ar gyfer y sesiwn.
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ymuno â ni gan ddefnyddio dyfais electronig sy'n gweithio, e.e. gliniadur neu gyfrifiadur personol. Ceisiwch ymgyfarwyddo â'r platfform hyfforddi cyn yr achlysur.
- Gwnewch yn siŵr bod eich camera wedi'i droi ymlaen trwy gydol y sesiwn, a bod eich meicroffon ar 'mute', ac eithrio y cewch chi'ch gofyn i wneud fel arall (e.e. yn ystod sesiynau grŵp). Mae hyn yn sicrhau bod synau cefndir ddim yn tarfu ar bawb sy'n cymryd rhan.
- Bydd yr hyfforddwr yn amlinellu unrhyw reolau cyffredinol eraill ynghylch ymddygiad ar-lein ar ddechrau'r sesiwn.
- Bydd yr hyfforddwr yn esbonio sut y bydd pawb yn cyflwyno'i gilydd naill ai ar lafar neu drwy'r cyfleuster 'chat'.
- Mae'n bwysig eich bod chi'n 'ymuno'. Mae bod yn weithredol yn hyn o beth yn hanfodol i brofiad dysgu llwyddiannus.
- Defnyddiwch y cyfleuster 'chat' os oes gyda chi gwestiwn i'r hyfforddwr. Bydd yr hyfforddwr wedyn yn penderfynu pryd i fynd i'r afael â nhw yn ystod y sesiwn.
- Bydd tystysgrifau electronig yn cael eu hanfon drwy e-bost at y rheiny sydd wedi cymryd rhan ar ôl i werthusiad wedi'i gwblhau ddod i law. Bydd y gwerthusiad yn cael ei anfon at bawb sydd wedi cymryd rhan yn y sesiwn.

**Adnoddau Electronig a Thudalennau Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol Cymru**

Mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru ystod o adnoddau electronig i'ch cynorthwyo i ddysgu sgiliau i'ch staff tra ein bod yng nghanol y pandemig.

https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/gwybodaeth-ac-adnoddau-ich-tywys-trwy-covid-19

**Commented [WR1]:** This link doesn't work therefore can't add the Welsh URL.

Mae nifer o becynnau dysgu electronig wedi'u rhestru ar y tudalennau yma gyda chyfarwyddiadau ar sut i'w cyrchu.

Cliciwch ar y ddolen 'Modiwlau hyfforddi a chyrsiau ar gyfer gweithwyr gofal'

Mae yna ystod o ddeunyddiau dysgu yn ymwneud â lles a'r sgwrs 'beth sy'n bwysig'.

Mae yna hefyd lawer o bynciau dysgu ar gael ar wefan 'Learning Wales'

Mae cyrsiau rheoli heintiau am ddim ar y wefan yma.

Bydd angen i chi gofrestru i gael mynediad at y cyrsiau yma. Mae modd sgwrsio'n fyw ar y wefan, lle mae rhywun ar gael i gynorthwyo gyda materion mynediad ac i ddarparu 'allwedd cofrestru' i chi ddechrau ar y dysgu.

Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yw'r lle i ddod o hyd i'r 'Hwb Gwybodaeth a Dysgu'. Fe ddewch chi o hyd i adnoddau sy'n ymwneud â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys cyflwyniadau PowerPoint, ffilmiau a Chwestiynau Cyffredin.

https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan

| Cwrs | Hyfforddwr/Hwylusydd | Hyd |
|---|---|---|
| Anhwylder Personoliaeth | Anna Minogue | 10.00am - 1.00pm |
| **Cynulleidfa Darged**: Gwasanaethau Anableddau Dysgu Cwm Taf | | |

**<u>Nodau/Amcanion</u>**

- Diffinio anhwylder personoliaeth; problemau gyda'r diagnosis; mathau gwahanol o anhwylderau personoliaeth; ffactorau achosi anhwylder personoliaeth - rôl trawma; adnabod anhwylder personoliaeth; anhwylder personoliaeth a risg; llwybrau triniaeth ac egwyddorion cymorth; pam ei bod hi'n anodd rhoi a derbyn cymorth; addasu i anghenion yr unigolyn sydd ag anhwylder personoliaeth; adnoddau ar gyfer anhwylderau personoliaeth

| Dyddiad | Lleoliad | Dyddiad Cau |
|---|---|---|
| 01/09/2023 | Teams | |
| 24/11/2023 | Teams | |

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

Ceri.watts@rctcbc.gov.uk

Anfonwch enwebiadau at: Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk

| Cwrs | Hyfforddwr/wraig | Hyd |
|---|---|---|
| Ffyrdd cadarnhaol o ddeall ymddygiad ar gyfer pobl sydd ag awtistiaeth | Helen Robinson | 9.30am - 4.00pm |

**Cynulleidfa Darged**: Gwasanaethau Anableddau Dysgu Cwm Taf

Bydd y cwrs yma, sy'n para diwrnod, yn eich helpu i ddeall y rhesymau dros yr ymddygiad heriol sy'n cael ei arddangos gan bobl ag anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth. Bydd hefyd yn dangos sut y mae modd i chi weithio mewn ffordd gadarnhaol sy'n helpu i newid yr ymddygiadau yma.

Yn aml mae ymddygiad yn cael ei ystyried yn heriol oherwydd y ffordd y mae'r byd yn barnu nodweddion awtistiaeth, a sut mae ymddygiad eraill a'r amgylchedd yn cael effaith ar bobl sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth.

Bydd y cwrs yma'n cynnig y cyfle i wella'ch dealltwriaeth o 'ymddygiad heriol' y rheiny sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth. Bydd hefyd yn sôn am ffyrdd cadarnhaol i helpu i newid yr ymddygiad yma.

Ar ddiwedd y cwrs, byddwch chi'n gallu gwneud y canlynol:

❖Nodi sut mae nodweddion awtistiaeth yn aml yn edrych fel ymddygiad heriol

❖Sut i asesu ymddygiad 'heriol' gan ddefnyddio'r 'Iceberg Model'

❖Datblygu dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn lleihau ymddygiad 'heriol'

❖Nodi sut mae deall nodweddion awtistiaeth yn gallu lleihau ymddygiad 'heriol' pan rydych chi'n ystyried y cysylltiad rhwng awtistiaeth ac ymddygiad 'heriol'

❖Deall sut mae egwyddorion strategaethau cefnogi ymddygiad cadarnhaol yn gallu bod o gymorth i ddatblygu deilliannau cadarnhaol i bobl sydd ag awtistiaeth

❖Archwilio'r ffyrdd rydyn ni'n gallu datblygu'n gynhalwyr ac ymarferwyr er mwyn rhoi cymorth i bobl ag awtistiaeth

❖Datblygu strategaethau ymddygiad cadarnhaol i helpu pobl ag awtistiaeth.

| Dyddiad | Lleoliad | Dyddiad Cau |
|---|---|---|
| 11/09/2023 | Rock Grounds, Stryd Fawr, Aberdâr, CF44 7AE | |

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

Ceri.watts@rctcbc.gov.uk

Anfonwch enwebiadau at: Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk

| **Pwnc** | **Hyfforddwr/wraig** | **Hyd** |
|---|---|---|
| Bod yn Effro i Beryglon Tân | Gwasanaethau Diogelwch Tân | Gweler isod |

**Cynulleidfa Darged**: Gwasanaethau Anableddau Dysgu Cwm Taf

**Amcanion**:

Erbyn diwedd y sesiwn, byddwch chi'n:

- Meddu ar ddealltwriaeth o ddiogelwch tân
- Gallu cyfrannu at leihau risg yn y gweithle
- Gwybod y gweithdrefnau tân priodol:

a) Wrth ddarganfod tân

b) Wrth glywed larwm tân

- Bod yn effro i fesurau diogelwch tân a'r systemau sydd wedi'u darparu
- Gallu dewis y diffoddwr tân cywir ar gyfer math penodol o dân
- Gwirio yn eich sefydliad eich hun am yr hyn i'w wneud os bydd argyfwng

| **Dyddiad** | **Lleoliad** | **Dyddiad Cau** |
|---|---|---|
| 19/09/2023 (9.30am - 12.30pm) | Rock Grounds, Stryd Fawr, Aberdâr, CF44 7AE | |
| 19/09/2023 (1.00pm - 4.00pm) | Rock Grounds, Stryd Fawr, Aberdâr, CF44 7AE | |
| 23/01/2024 (9.30am - 12.30pm) | Rock Grounds, Stryd Fawr, Aberdâr, CF44 7AE | |
| 23/01/2024 (1.00pm - 4.00pm) | Rock Grounds, Stryd Fawr, Aberdâr, CF44 7AE | |
| 06/03/2024 (9.30am - 12.30pm) | Rock Grounds, Stryd Fawr, Aberdâr, CF44 7AE | |
| 06/03/2024 (1.00pm - 4.00pm) | Rock Grounds, Stryd Fawr, Aberdâr, CF44 7AE | |

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

Ceri.watts@rctcbc.gov.uk

Anfonwch enwebiadau at: Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk

| Pwnc | Hyfforddwr/wraig | Hyd |
|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o Epilepsi | Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf | 10.00am–2.00pm |

**Cynulleidfa Darged**: Gwasanaethau Anableddau Dysgu Cwm Taf

**Amcanion:**

Yn dilyn yr hyfforddiant, byddwch chi'n:

- Meddu ar wybodaeth am y mathau gwahanol o strociau epileptig
- Gallu adnabod a disgrifio ffit epileptig tonig/clonig
- Gallu disgrifio egwyddorion rheoli strôc epileptig
- Gallu disgrifio effaith epilepsi ar ffordd o fyw
- Gallu disgrifio'r gwahaniaeth rhwng statws epileptig a ffitiau cyfresol

**Bydd angen potel ddŵr eich hunain arnoch chi, a chwpan/llestr er mwyn ymarfer gweinyddu buccal midazolam yn ystod yr hyfforddiant.**

| Dyddiad | Lleoliad | Dyddiad Cau |
|---|---|---|
| 25/09/2023 | Rock Grounds, Stryd Fawr, Aberdâr, CF44 7AE | |
| 26/10/2023 | Rock Grounds, Stryd Fawr, Aberdâr, CF44 7AE | |
| 24/11/2023 | Rock Grounds, Stryd Fawr, Aberdâr, CF44 7AE | |
| 19/01/2024 | Rock Grounds, Stryd Fawr, Aberdâr, CF44 7AE | |
| 09/02/2024 | Rock Grounds, Stryd Fawr, Aberdâr, CF44 7AE | |
| 22/03/2024 | Rock Grounds, Stryd Fawr, Aberdâr, CF44 7AE | |

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

Ceri.watts@rctcbc.gov.uk

Anfonwch enwebiadau at: Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk

| **Pwnc** | **Hyfforddwr/wraig** | **Hyd** |
|---|---|---|
| Deall Cyflyrau Iechyd Meddwl | Anna Minogue | 10.00am – 1.00pm |

**Cynulleidfa Darged**: Gwasanaethau Anableddau Dysgu Cwm Taf

**Deilliannau Dysgu**

- Gwella dealltwriaeth y cyfranogwyr o ran Iechyd Meddwl
- Nodi modelau gwahanol o ran Iechyd Meddwl
- Ystyried rôl straen mewn perthynas ag Iechyd Meddwl
- Disgrifio gwahanol gyflyrau iechyd meddwl fel Anhwylderau Gorbryder, Iselder, Anhwylderau Personoliaeth
- Trafod yr opsiynau o ran Triniaeth a Chefnogaeth a allai fod ar gael.

| **Dyddiad** | **Lleoliad** | **Dyddiad Cau** |
|---|---|---|
| 10/10/2023 | Teams | |

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

Ceri.watts@rctcbc.gov.uk

Anfonwch enwebiadau at: Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk

| Pwnc | Hyfforddwr/wraig | Hyd |
|---|---|---|
| Cyfathrebu Cynhwysol | Carfan Therapi Iaith a Lleferydd | 9.30am - 3.30pm |

**Cynulleidfa Darged**: Pob aelod o staff sy'n gyfrifol am ddiogelwch yn eu gweithle

Rhoi gwybodaeth i gyfranogwyr am bob math o gyfathrebu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n cael ei ddefnyddio gan unigolion ag anabledd dysgu. Gwella dealltwriaeth o safonau sylfaenol cyfathrebu ag unigolion, a sut mae cydgynhyrchu'n bwysig yn ystod pob rhyngweithiad. Mae hyn er mwyn sicrhau bod unigolion yn cael eu cynnwys a bod ganddyn nhw lais. Mae hefyd yn bwysig bod staff/cynhalwyr yn teimlo bod modd iddyn nhw weithredu canllawiau therapi lleferydd ac iaith unigol.

**Deilliannau Dysgu**

Meddu ar well dealltwriaeth o gyfathrebu swyddogaethol, effeithiol a gwerthfawr

Meddu ar well dealltwriaeth o'r gwahanol ddulliau o gyfathrebu effeithiol, y rhesymau dros eu defnyddio a'r cyfleoedd i'w harfer

Dysgu rhagor am ddulliau gwahanol i gefnogi cyfathrebu a ffyrdd i'w defnyddio

Deall pwysigrwydd gwneud dewis a'r sgiliau cyfathrebu sydd eu hangen.

| Dyddiad | Lleoliad | Dyddiad Cau |
|---|---|---|
| 17/10/2023 | Rock Grounds, Stryd Fawr, Aberdâr, CF44 7AE | |
| 08/02/2024 | Rock Grounds, Stryd Fawr, Aberdâr, CF44 7AE | |

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

Ceri.watts@rctcbc.gov.uk

Anfonwch enwebiadau at: Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk

| **Pwnc** | **Hyfforddwr/wraig** | **Hyd** |
|---|---|---|
| Bwyta ac Yfed â Chymorth | Carfan Therapi Iaith a Lleferydd | 9.30am - 2.00pm |
| **Cynulleidfa Darged**: Gwasanaethau Anableddau Dysgu Cwm Taf | | |

Codi ymwybyddiaeth o'r broses bwyta, yfed a llyncu. Anawsterau yn y broses a chanlyniadau posibl. Arferion diogel a strategaethau rheoli.

• Anatomi'r pen a'r gwddf a chamau llyncu arferol

• Beth sy'n gallu mynd o'i le wrth lyncu

• Pam mae ymyrraeth yn angenrheidiol

• Ansawdd bwydydd a diodydd gwahanol a pham mae angen i fwydydd a diodydd gael eu haddasu

• Ystyriaethau ymarferol ar gyfer bwyta ac yfed yn ddiogel

• Gweithio amlddisgyblaethol ac asesiadau risg

• Pryd a sut i atgyfeirio unigolyn at Wasanaethau Therapi Lleferydd ac Iaith

****NODWCH****

Bydd angen i aelodau newydd o staff gwblhau'r modiwl e-ddysgu Lefel 1, gan gynnwys holiadur yn dilyn yr hyfforddiant cyn mynychu'r cwrs yma.

Argymhellir cynnal yr hyfforddiant wyneb yn wyneb yma bob tair blynedd, neu yng nghynt yn ôl disgresiwn y rheolwr. Er mwyn cynnal gwybodaeth, argymhellir bod staff yn cwblhau'r modiwl e-ddysgu Lefel 1 a 2 fel sesiwn gloywi bob blwyddyn.

| **Dyddiad** | **Lleoliad** | **Dyddiad Cau** |
|---|---|---|
| 07/11/2023 | Rock Grounds, Stryd Fawr, Aberdâr, CF44 7AE | |

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

Ceri.watts@rctcbc.gov.uk

Anfonwch enwebiadau at: Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk

| Pwnc | Hyfforddwr/wraig | Hyd |
|---|---|---|
| Anableddau Dysgu a Dementia | Tony Waters | 9.30am–12.00pm |

**Cynulleidfa Darged**: Gwasanaethau Anableddau Dysgu Cwm Taf

**Nodau/Amcanion**

- Deall beth yw Dementia
- Deall nodweddion allweddol Anabledd Dysgu
- Deall effeithiau heneiddio 'normal'
- Deall diagnosis Dementia mewn pobl ag Anabledd Dysgu
- Ystyried yr effaith y mae Dementia yn ei chael ar berson sydd eisoes ag Anabledd Dysgu
- Archwilio strategaethau effeithiol i gynorthwyo person â dementia i fyw bywyd da

| Dyddiad | Lleoliad | Dyddiad Cau |
|---|---|---|
| 09/11/2023 | Teams | |

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

Ceri.watts@rctcbc.gov.uk

Anfonwch enwebiadau at: Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk

| Pwnc | Hyfforddwr/wraig | Hyd |
|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth – ASD 1 gynt | Helen Robinson | 9.30am - 4.30pm |
| **Cynulleidfa Darged**: Gwasanaethau Anableddau Dysgu Cwm Taf | | |

Nodau

Mae'r cwrs yma ar gyfer ymarferwyr sy'n gymharol newydd ym maes awtistiaeth, neu ar gyfer y rheiny sydd angen cwrs gloywi. Cewch ddysgu am gysyniadau sylfaenol a theorïau yn ymwneud ag anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth. Byddwch chi'n dysgu am syniad y sbectrwm awtistiaeth, ynghyd ag agweddau biolegol, seicolegol ac ymddygiadol yr anhwylder. Bydd dulliau ymarferol ochr yn ochr ag egwyddorion damcaniaethol yn rhan o'r cwrs. Dyma gwrs rhyngweithiol gyda chyfleoedd i gynnal trafodaethau a gofyn cwestiynau.

Ar ddiwedd y cwrs, byddwch chi'n gallu:

- Nodi prif nodweddion yr ymddygiad sy'n cael ei arddangos gan bobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth
- Deall y triad o ddiffygion
- Deall ystod y sbectrwm
- Gwerthfawrogi'r gwahaniaethau penodol o ran deall yr iaith sy'n cael ei defnyddio gyda phobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth
- Deall bod angen atgyfnerthu iaith lafar gydag adnoddau gweledol er mwyn helpu'r rheiny sydd ar y sbectrwm awtistiaeth i ddeall yn well
- Gwerthfawrogi pwysigrwydd trefn reolaidd a natur ragweladwy i bobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth
- Deall cymhlethdod rhyngweithio cymdeithasol
- Gwerthfawrogi'r gwahaniaethau o ran synhwyrau sydd gan bobl ar y sbectrwm awtistiaeth

| Dyddiad | Lleoliad | Dyddiad Cau |
|---|---|---|
| 21/11/2023 | Rock Grounds, Stryd Fawr, Aberdâr, CF44 7AE | |

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

Ceri.watts@rctcbc.gov.uk

Anfonwch enwebiadau at: Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk

| Pwnc | Hyfforddwr/wraig | Hyd |
|---|---|---|
| Strategaethau Cymorth Gweledol (ASD Lefel 2 gynt) | Helen Robinson | 9.30am–12.30pm |

**Cynulleidfa Darged**: Gwasanaethau Anableddau Dysgu Cwm Taf

**Nodau**

Mae'r cwrs yn cynnig syniadau ymarferol a thechnegau yn ymwneud â sut i ddatblygu strategaethau cymorth gweledol. Mae'r cynnwys wedi'i anelu at oedolion sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth.

Mae'n mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chyfathrebu, hunan-reolaeth a chymorth gweithredol, ac yn ceisio atebion i anawsterau drwy drafodaethau a dangos enghreifftiau bywyd go iawn.

Erbyn diwedd y cwrs, byddwch chi'n gallu:

- Gwella lefelau cymryd rhan, annibynniaeth a chyfathrebu ar gyfer pobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth sy'n siarad a'r rheiny sy'n ddieiriau.
- Helpu'r person i ddeall y disgwyliadau
- Helpu'r person i wneud dysgu'n haws
- Helpu'r person i gyffredinoli
- Meithrin hunan-hyder

| Dyddiad | Lleoliad | Dyddiad Cau |
|---|---|---|
| 07/12/2023 | Rock Grounds, Stryd Fawr, Aberdâr, CF44 7AE | |

`

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

Ceri.watts@rctcbc.gov.uk

Anfonwch enwebiadau at: Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk

| Pwnc | Hyfforddwr/wraig | Hyd |
|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o Ddiabetes | Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf | 10.00am - 12.00pm |
| **Cynulleidfa Darged**: Gwasanaethau Anableddau Dysgu Cwm Taf | | |

Nodau ac Amcanion

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd modd i chi:

- Nodi'r mathau gwahanol o Ddiabetes
- Nodi anawsterau cyffredin o ran byw gyda Diabetes
- Nodi triniaethau cyffredin ar gyfer Diabetes
- Nodi'r gofynion dietegol sylfaenol ar gyfer pobl sydd â Diabetes.

| Dyddiad | Lleoliad | Dyddiad Cau |
|---|---|---|
| 12/02/2023 | Teams | |
| 12/03/2024 | Teams | |

**Pe hoffech chi ofyn cwestiwn** mewn perthynas â chynnwys y cwrs, e-bostiwch:

Ceri.watts@rctcbc.gov.uk

Anfonwch enwebiadau at: Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk / hyfforddiantgofalcymdeithasol@rctcbc.gov.uk

# Gwybodaeth am Becynnau E-ddysgu

## Tystysgrif E-ddysgu Hylendid Bwyd

Mae carfan gwasanaethau arlwyo Rhondda Cynon Taf wedi datblygu'r llwybr e-ddysgu canlynol i staff gael gwybodaeth am hylendid bwyd.

**I wneud cwrs yma, e-bostiwch Ceri Watts Ceri.Watts@rctcbc.gov.uk**

**Er bod rhaid talu am y cwrs yma,** mae modd i'r garfan hyfforddi dalu am gydweithwyr **y gwasanaeth mewnol** enwebedig lle mae eu swydd yn gofyn iddyn nhw drin bwyd. Dylai rheolwyr gysylltu â'r garfan hyfforddi yn y lle cyntaf i ofyn am fynediad at y cwrs a rhoi trefniadau ar waith gyda'n cydweithwyr yn y Gwasanaethau Arlwyo.

Dylai rheolwyr ddarllen yr wybodaeth yma cyn enwebu staff:

- Mae modd cael mynediad at y cwrs ar unrhyw gyfrifiadur. Does dim angen cyfeiriad e-bost y Cyngor
- Bydd y cwrs yn cymryd tua 6 awr i'w gwblhau
- Mae'r cwrs yn cynnwys 10 modiwl
- Dylid mynd i'r afael â phob modiwl ar ddiwrnod gwahanol. Bydd yn well ymgymryd â'r dysgu yma fesul tipyn
- Ym mhob modiwl, mae 5 ateb amlddewis ar ddiwedd pob rhan
- Rhaid sgorio 100% ym mhob rhan
- Mae deunyddiau ategol ynghlwm wrth y cwrs sy'n cynnwys yr holl atebion i'r cwestiynau amlddewis. Dyma adnodd hanfodol er mwyn cynnal eich cymhelliant y dysgwr â'r cwrs.
- Dylai rheolwyr argraffu'r deunyddiau yma cyn y sesiwn, gan dynnu sylw i le i ddod o hyd i'r atebion
- Mae'r ffordd y mae llyfr y cwrs wedi'i ddylunio'n adlewyrchu'r modiwlau e-ddysgu
- Mae rhestr eirfa yng nghefn y llyfr. Mae hyn yn cynnwys diffiniadau o eiriau anodd. Mae rhai o'r cwestiynau amlddewis yn gofyn am ddiffiniadau. Dylid defnyddio'r rhestr eirfa i ddod o hyd i'r ateb. Mae llawer o'r atebion amlddewis yn debyg iawn ar bwrpas. Bydd y llyfr yn rhoi'r union ateb y mae'r e-ddysgu yn gofyn amdano.

**Diogelwch Bwyd Lefel 2 – Awgrymiadau Defnyddiol ar gyfer E-Ddysgu haws**

Cyn bo hir byddwch chi'n derbyn e-bost gan support@highfieldelearning.com gyda chyfarwyddyd mewngofnodi. Os nad ydych yn derbyn yr e-bost – gwiriwch eich ffolderi 'junk' neu 'spam'. Am gymorth technegol e-bostiwch y cyfeiriad uchod neu ffoniwch 01302 363277 (dydd Llun – dydd Gwener, 8.30am - 5.30pm).

Defnyddiwch **Google Chrome** wrth gwblhau'r e-ddysgu ✓

Peidiwch â defnyddio **Internet Explorer** ✗

1. Gan ddefnyddio dyfais addas, e.e. iPad, tabled, gliniadur neu gyfrifiadur gydnaws â mewngofnodwch i: https://lms.highfieldelearning.com .Nid oes modd defnyddio i ffôn android i wneud hyn.

*2.* Dyma'ch cynghori chi i lawrlwytho a darllen y **llyfr PDF** cyn mynd i'r afael â phob modiwl e-ddysgu. *(Mae'r llyfr wedi'i nodi ar waelod y dudalen gyntaf o dan Benawdau'r Modiwl).*
Mae **Rhestr Geirfa a Thermau** ar **dudalen 57** i egluro'r derminoleg sy'n cael ei defnyddio yn yr e-ddysgu.

| Modiwlau | Pwnc | Tudalen |
|---|---|---|
| **1** | Cyflwyniad i Ddiogelwch Bwyd | **T3** |
| **2** | Peryglon Microfiolegol | **T6 ac 11** |
| **3** | Gwenwyn Bwyd a Rheoli Gwenwyn Bwyd | **T12** |
| **4** | Peryglon Halogiad a Rheoli Peryglon Bwyd | **T18** |
| **5** | HACCP o Ddarpaiaeth i Wasanaeth | **T43** |
| **6** | Hylendid Personol | **T25** |
| **7** | Adaeiladau Bwyd ac Offer Bwyd | **T30** |
| **8** | Plâu Bwyd a Rheoli Plâu Bwyd | **T34** |
| **9** | Glanhau a Diheintio | **T38** |
| **10** | Gorfodi Diogelwch Bwyd | **T55** |

3. Defnyddiwch y saeth sydd yn y gornel dde isaf i weithio'ch ffordd drwy'r modiwl. Dim ond ar ôl darllen yr holl wybodaeth ar y sgrin y bydd y saeth yn caniatáu ichi symud i'r cam nesaf.

4. Ar ddiwedd pob modiwl mae asesiad, sef 5 cwestiwn amlddewis.
− Os byddwch chi'n cael cwestiwn yn anghywir yn yr asesiad, bydd y sytem yn mynd â chi yn ôl i'r cwrs i adolygu'r wybodaeth a oedd yn y cwestiwn cawsoch chi'n anghywir. Yn yr achos hynny, byddwch chi'n cael cynnig cwestiwn arall.
− Os byddwch yn aflwyddiannus yn yr asesiad 'modiwl olaf' fwy na 3 gwaith, mae angen i chi *adolygu'r* cwrs cyfan eto. Ar ôl gwneud hynny, mae modd i chi roi cais ar sefyll yr asesiad unwaith eto.

Mae Carfan Hyfforddi'r Gwasanaethau Arlwyo ar gael i chi rhwng 8am a 4pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener i roi cymorth cyfeillgar i ymgeiswyr sydd o bosibl angen rhywfaint o help.

- **Margery Jones – 07471 140720**
- **Beverly Griffiths – 07393 759298**

- **Madison Shellis – 07799 132006**

## Dysgu am Feddyginiaeth

Mae'n cydweithwyr ni yng Ngharfan Fferylliaeth Cwm Taf Morgannwg wedi datblygu'r llwybr e-ddysgu canlynol er mwyn i staff ddysgu sut i weinyddu meddyginiaeth.

Mae ar gael drwy wefan Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

https://learning.wcppe.org.uk/course/view.php?id=2738

**Mae'r cwrs AM DDIM**.

Dyma gynghori uwch aelodau'r staff yn eich sefydliad i ymgymryd â'r dysgu yma'n gyntaf, gan fod system sicrhau ansawdd arweinyddiaeth wedi'u cynnwys gyda'r pecyn a fyddai o bosibl o ddefnydd i chi. Mae hyn yn cynnwys;

1. Pecyn dysgu llawn i'w argraffu a thywys staff i'w ddefnyddio mewn sesiynau cymorth unigol a sesiynau grŵp
2. System waith ddiogel i roi gwybod i staff sut i weinyddu meddyginiaeth wrth gyflawni'r dasg ymarferol
3. Taflen cymeradwyo cymhwysedd y mae modd i reolwyr ei defnyddio i werthuso sgiliau a gallu staff.

Nodwch fod e-ddysgu'n becyn 'gwybodaeth yn unig'. Fydd y dysgu ddim yn sicrhau bod aelodau staff yn gymwys i weinyddu meddyginiaeth. Arweinwyr pob sefydliad sy'n gyfrifol am werthuso cymhwysedd staff bob amser ac mae hyn wedi'i glymu yn ôl y gyfraith i'r broses oruchwylio.

Pe hoffech chi gael rhywfaint o ddogfennau i'ch helpu chi i wneud y canlynol:

- Cofrestru aelodau o staff ar y safle
- Goruchwylio / sicrhau ansawdd gwaith eich carfan staff

E-bostiwch **Ceri Watts:** ceri.watts@rctcbc.gov.uk

Ar ôl i chi gwblhau'r e-ddysgu, anfonwch copi o'ch tystysgrif at Hannah Johnson: Hannah.k.johnson@rctcbc.gov.uk er mwyn iddi gael ei hychwanegu at eich cofnod hyfforddi.

# Rhaglen Fframwaith: Sefydlu Gofal Cymdeithasol




Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

## Rhaglen Sefydlu Gofal Cymdeithasol

Mae'r Garfan FfCCh wedi bod yn gweithio'n agos â chydweithwyr sefydliad Gofal Cymdeithasol Cymru i lunio rhaglen sefydlu ar gyfer staff gofal uniongyrchol sy'n newydd i'r byd gofal cymdeithasol.

**Nod** – Rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar staff sy'n newydd i'r byd gofal cymdeithasol i ymgymryd â'u rolau. Y disgwyl yw y bydd y rhan fwyaf o staff yn cwblhau'r hyfforddiant 9 diwrnod yn yr un rhaglen. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod y sesiynau yma'n orfodol oherwydd gofynion deddfwriaethol. Serch hynny, dylai rheolwyr ofyn am gyngor gan y staff hyfforddi os mae yna bynciau sy ddim yn berthnasol i'r swydd. Mae pob sesiwn yn cwmpasu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Gofal Dementia –** Yn unol â gofynion y Comisiynydd Pobl Hŷn, mae sesiwn yn ymwneud â gofal dementia wedi'i datblygu i roi hyfforddiant i bob gweithiwr sy'n cefnogi pobl hŷn.

**Hyd** – Mae'r fframwaith yn cynnwys hyfforddiant 9 diwrnod ar amrediad o bynciau. Caiff pob sesiwn ei chynnig yn unigol. Rydyn ni'n cynnig rhaglenni rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024. Weithiau, mae'n bosibl ychwanegu rhaglenni er mwyn diwallu anghenion o fewn y gwasanaeth.

**Cynulleidfa Darged** – Mae'r hyfforddiant yn benodol ar gyfer staff sy'n gweithio yn lleoliadau gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol. Does dim rhaid i'r aelod o staff roi gofal cymdeithasol yn rhan o'i swydd. Rydyn ni'n annog garddwyr, staff cynnal a chadw, staff domestig a chogyddion i gymryd rhan lle bo'n berthnasol.

**Cysylltu ag asiantaethau partner** – Mae hyn a hyn o leoedd ar gael eleni i gydweithwyr yn y sectorau preifat a gwirfoddol.

**Achrediad** – Mae Rhaglen Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol wedi'i hachredu gan City & Guilds

**Rolau a Chyfrifoldebau** – Bydd y sesiynau hyfforddi sy wedi'u cynllunio yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i ymgymryd â rôl newydd mewn lleoliad gofal cymdeithasol. Bydd y sesiynau'n cefnogi rhai o'r gofynion gwybodaeth ar gyfer y **Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan** newydd, ac yn helpu staff i weithio drwy gymhwyster Craidd Lefel 2. Serch hynny, bydd angen i reolwyr barhau i arwain a rhoi cymorth mewn perthynas â chyflwyno'r garfan, ymgartrefu, gweithdrefnau penodol os bydd tân, asesiadau risg, goruchwylio gwaith, arsylwi ymarfer, ac ati.

**Sefydlu Staff Gofal Cymdeithasol 2023/2024**

Dyddiad dechrau 5 Hydref 2023

| Dyddiad | Pwnc | Amser | Hwylusydd | Lleoliad a Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 05/10/23 | Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn/Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn | 9.30am–4.30pm | Carfan Cymwysterau Galwedigaethol | Ystafell 1 |
| 06/10/23 | Cwynion<br><br>Eiriolaeth<br><br>Cyflwyniad i Ddatblygiad Dynol<br><br>Deddfwriaeth a Theori | 9.30am–10.30am<br><br>10.30am – 12.00pm<br><br>1.30pm–4.30pm | Carfan Cymwysterau Galwedigaethol | Ystafell 1 |
| 09/10/23 | Cymorth Cyntaf Brys | 9.30am–4.30pm | Carfan Codi a Chario/Cymorth Cyntaf | Ystafell 1 |
| 10/10/23 | Diogelu Plant Lefel 2<br><br>Dementia | 9.30am–12.30pm<br><br>1pm - 4pm | Lyn Prosser<br><br>Paul Aubrey | Ystafell 1<br><br>Ystafell 1 |
| 11/10/23 | Diogelu Oedolion | 9.30am–4.30pm | Carfan Cymwysterau | Ystafell 1 |
| 12/10/23 | Iechyd a Diogelwch Cyffredinol<br><br>A&B<br><br>Trais yn Erbyn Menywod a Cham-Drin Domestig | 9.00am–12.30pm<br><br>1.30pm–3.30pm<br><br>3.30pm–4.30pm | Carfan Codi a Chario/Cymorth Cyntaf | Ystafell 1<br><br>Ystafell 1<br>Mae cymorth diogelu ar gael |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 16/10/23<br>17/10/23<br>18/10/23 | Cymorth Gartref CDF<br>Preswyl CDF<br>Anableddau Dysgu CDF | 9.30am–4.30pm | Carfan Codi a Chario/Cymorth Cyntaf | Ystafell 1 |

## Sefydlu Staff Gofal Cymdeithasol 2023/2024

Yn dechrau 9 Tachwedd 2023

| Dyddiad | Pwnc | Amser | Hwylusydd | Lleoliad a Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 09/11/23 | Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn/Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn | 9.30am–4.30pm | Carfan Cymwysterau Galwedigaethol | Ystafell 1 |
| 10/11/23 | Cwynion<br><br>Eiriolaeth<br><br>Cyflwyniad i Ddatblygiad Dynol<br><br>Deddfwriaeth a Theori | 9.30am–10.30am<br><br>10.30am–12.00pm<br><br>1.30pm–4.30pm | Carfan Cymwysterau Galwedigaethol | Ystafell 1 |
| 13/11/23 | Cymorth Cyntaf Brys | 9.30am–4.30pm | Carfan Codi a Chario/Cymorth Cyntaf | Ystafell 1 |
| 14/11/23 | Diogelu Plant Lefel 2 | 9.30am–12.30am | Lyn Prosser | Ystafell 1 |
| 15/11/23 | Diogelu Oedolion | 9.30am–4.30pm | Carfan Cymwysterau Galwedigaethol | Ystafell 1 |
| 16/11/23 | Iechyd a Diogelwch Cyffredinol<br><br>A&B | 9.00am–12.30pm<br><br>1.30pm–3.30pm | Carfan Codi a Chario/Cymorth Cyntaf | Ystafell 1<br><br>Ystafell 1 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Trais yn Erbyn Menywod a Cham-Drin Domestig | 3.30pm–4.30pm | | Mae cymorth diogelu ar gael |
| 20/11/23<br>21/11/23<br>22/11/23 | Cymorth Gartref CDF<br>Preswyl CDF<br>Anableddau Dysgu CDF | 9.30am–4.30pm | Carfan Codi a Chario/Cymorth Cyntaf | Ystafell 1 |

**Sefydlu Staff Gofal Cymdeithasol 2023/2024**

Yn dechrau 7 Rhagfyr 2023

| Dyddiad | Pwnc | Amser | Hwylusydd | Lleoliad a Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 04/12/23 | Iechyd a Diogelwch Cyffredinol<br><br>A&B<br><br>Trais yn Erbyn Menywod a Cham-Drin Domestig | 9.00am–12.30pm<br><br>1.30pm–3.30pm<br><br>3.30–4.30 | Carfan Codi a Chario/Cymorth Cyntaf<br><br>Mae cymorth diogelu ar gael | Ystafell 1<br><br>Ystafell 1 |
| 05/12/23<br>06/12/23 | Cymorth Gartref CDF<br>Preswyl CDF<br>Anableddau Dysgu CDF | 9.30am – 4.30pm | Carfan Codi a Chario/Cymorth Cyntaf | Ystafell 1 |
| 07/12/23 | Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn/Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn | 9.30am–4.30pm | Carfan Cymwysterau Galwedigaethol | Ystafell 1 |
| 08/12/23 | Cwynion<br><br>Eiriolaeth<br><br>Cyflwyniad i Ddatblygiad Dynol | 9.30am–10.30am<br><br>10.30am–12.00pm<br><br>1.30pm–4.30pm | Carfan Cymwysterau Galwedigaethol | Ystafell 1 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Deddfwriaeth a Theori | | | |
| 11/12/23 | Cymorth Cyntaf Brys | 9.30am–4.30pm | Carfan Codi a Chario/Cymorth | Ystafell 1 |
| 12/12/23 | Diogelu Plant Lefel 2 | 9.30am–12.30pm | Lyn Prosser | Ystafell 1 |
| 13/12/23 | Diogelu Oedolion | 9.30am–4.30pm | Carfan Cymwysterau Galwedigaethol | Ystafell 1 |

**Sefydlu Staff Gofal Cymdeithasol 2023/2024**

Yn dechrau 11 Ionawr 2024

| Dyddiad | Pwnc | Amser | Hwylusydd | Lleoliad a Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 11/01/24 | Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn/Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn | 9.30am–4.30pm | Carfan Cymwysterau Galwedigaethol | Ystafell 1 |
| 12/01/24 | Cwynion<br><br>Eiriolaeth<br><br>Cyflwyniad i Ddatblygiad Dynol<br><br>Deddfwriaeth a Theori | 9.30am–10.30am<br><br>10.30am–12.00pm<br><br>1.30pm–4.30pm | Carfan Cymwysterau Galwedigaethol | Ystafell 1 |
| 15/01/24 | Cymorth Cyntaf Brys | 9.30am–4.30pm | Carfan Codi a Chario/Cymorth Cyntaf | Ystafell 1 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 16/01/24 | Diogelu Plant Lefel 2<br><br>Dementia | 9.30am–12.30pm<br><br>1pm - 4pm | Lyn Prosser<br><br>Paul Aubrey | Ystafell 1<br><br>Ystafell 1 |
| 17/01/24 | Diogelu Oedolion | 9.30am–4.30pm | Carfan Cymwysterau | Ystafell 1 |
| 18/01/24 | Iechyd a Diogelwch Cyffredinol<br><br>A&B<br><br>Trais yn Erbyn Menywod a Cham-Drin Domestig | 9.00am–12.30pm<br><br>1.30pm–3.30pm<br><br>3.30–4.30 | Carfan Codi a Chario/Cymorth Cyntaf | Ystafell 1<br><br>Ystafell 1<br>Mae cymorth diogelu ar gael |
| 22/01/24<br>23/01/24<br>24/01/24 | Cymorth Gartref CDF<br>Preswyl CDF<br>Anableddau Dysgu CDF | 9-30 – 4:30 | Carfan Codi a Chario/Cymorth Cyntaf | Ystafell 1 |

**Sefydlu Staff Gofal Cymdeithasol 2023/2024**

Yn dechrau 15 Chwefror 2024

| Dyddiad | Pwnc | Amser | Hwylusydd | Lleoliad a Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 15/02/24 | Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn/Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn | 9.30am–4.30pm | Carfan Cymwysterau Galwedigaethol | Ystafell 1 |
| 16/02/24 | Eiriolaeth<br><br>Cwynion<br><br>Cyflwyniad i Ddatblygiad Dynol | 9.30am–10.30am<br><br>10.30am–12.00pm<br><br>1.30pm–4.30pm | Carfan Cymwysterau Galwedigaethol | Ystafell 1 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Deddfwriaeth a Theori | | | |
| 19/02/24 | Cymorth Cyntaf Brys | 9.30am–4.30pm | Carfan Codi a Chario/Cymorth Cyntaf | Ystafell 1 |
| 20/02/24 | Diogelu Plant Lefel 2 | 9.30am–12.30pm | Lyn Prosser | Ystafell 1 |
| 21/02/24 | Diogelu Oedolion | 9.30am–4.30pm | Carfan Cymwysterau Galwedigaethol | Ystafell 1 |
| 22/02/24 | Iechyd a Diogelwch Cyffredinol<br><br>A&B<br><br>Trais yn Erbyn Menywod a Cham-Drin Domestig | 9.00am–12.30pm<br><br>1.30pm–3.30pm<br><br>3.30am – 4.30am | Carfan Codi a Chario/Cymorth Cyntaf | Ystafell 1<br><br>Ystafell 1<br>Mae cymorth diogelu ar gael |
| 26/02/24<br>27/02/24<br>28/02/24 | Cymorth Gartref CDF<br>Preswyl CDF<br>Anableddau Dysgu CDF | 9.30am – 4.30am | Carfan Codi a Chario/Cymorth Cyntaf | Ystafell 1 |

## Sefydlu Staff Gofal Cymdeithasol 2023/2024

Yn dechrau 7 Mawrth 2024

| **Dyddiad** | **Pwnc** | **Amser** | **Hwylusydd** | **Lleoliad a Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| 07/03/24 | Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn/Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn | 9.30am–4.30pm | Carfan Cymwysterau Galwedigaethol | Ystafell 1 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 08/03/24 | Cwynion<br><br>Eiriolaeth<br><br>Cyflwyniad i Ddatblygiad Dynol<br><br>Deddfwriaeth a Theori | 9.30am–10.30am<br><br>10.30am–12.00pm<br><br>1.30pm–4.30pm | Carfan Cymwysterau Galwedigaethol | Ystafell 1 |
| 11/03/24 | Cymorth Cyntaf Brys | 9.30am–4.30pm | Carfan Codi a Chario/Cymorth Cyntaf | Ystafell 1 |
| 12/03/24 | Diogelu Plant Lefel 2<br><br>Dementia | 9.30am–12.30am<br><br>1pm - 4pm | Lyn Prosser<br><br>Paul Aubrey | Ystafell 1<br><br>Ystafell 1 |
| 13/03/24 | Diogelu Oedolion | 9.30am–4.30pm | Carfan Cymwysterau Galwedigaethol | Ystafell 1 |
| 14/03/23 | Iechyd a Diogelwch Cyffredinol<br><br>A&B<br><br>Trais yn Erbyn Menywod a Cham-Drin Domestig | 9.00am–12.30pm<br><br>1.30pm–3.30pm<br><br>3.30–4.30 | Carfan Codi a Chario/Cymorth Cyntaf | Ystafell 1<br><br>Ystafell 1<br>Mae cymorth diogelu ar gael |
| 18/03/24<br>19/03/24<br>20/03/24 | Cymorth Gartref CDF<br>Preswyl CDF<br>Anableddau Dysgu CDF | 9-30 – 4:30 | Carfan Codi a Chario/Cymorth Cyntaf | Ystafell 1 |

| Pwnc | Hyfforddwr/wraig | Hyd |
|---|---|---|
| **Iechyd a Diogelwch Cyffredinol**<br><br>**A&B** | **Cwm Taf – Carfan Codi a Chario a Charfan Adnoddau Cymorth Cyntaf** | **9.30am – 12.30pm**<br><br>**1.00pm–4.30pm** |
| Sesiwn wedi'i threfnu gan Jillian Davies | | |

**Iechyd a Diogelwch Cyffredinol**

**Nod:**

